

Caeriw/Cei Cresswell

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 4.9 milltir (7.8 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Cairew 360/361, Cei Cresswell 361

CYMERIAD: Graddfa hawdd i ganolig, 1.5 milltir (2.5 km) o gerdded ar isffyrdd, caeau a da byw, rhai rhannau yn wlyb ac yn fwdlyd

CHWILIWCH AM: Castell Cairew, Melin Lanw a phyllau'r felin • golygfeydd o'r afon • yr hen gei • pentrefi prydferth • adar y dŵr

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD


● ● ● ● Llwyr Cylch

■ ■ ■ ■ Llwyrbrau Cyhoeddus

P Maes Parcio

WC Toileadau Cyhoeddus

 Safle Bws



Caeriw/Cei Cresswell

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Hyd: 4.9 milltir (7.8 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Cairew 360/361, Cei
Cresswell 361.

Cyfeirnod map: SN043051

Mae patrwm ceinciog y Daugleddau a'i isafonydd yn 'foryd' glasurol, sef cyfres o ddyffrynnoedd afon a ffurfiwyd cyn yr Oes Iâ ddiwethaf ac yna a "foddwyd" wrth i lefelau'r môr godi.

Mae'r llwybr yn rhoi golygfeydd da o ddwy nant y Daugleddau, afonydd llanwol Cairew a Cresswell. Heddiw, mae'r ddyffrffordd yn dawel ac mae ei fflatiau llaid a'i forfa heli yn gynefin perffaith i adar gwyllt a rhydwyr. Mae piod y môr a phibyddion coesgoch yn bwydo pan fydd y llanw allan, ac yn aml fe welwch chi grëyr disymud wrth ymyl y dŵr yn aros am yr eiliad i ymosod ar ysglyfaeth.

Ond yn y gorffennol, roedd y Daugleddau yn ganolfan diwydiant, gyda glo a cherrig wedi'u chwarelu yn cael eu llwytho o geiau bach o amgylch y rhwydwaith o ddyffrffordd. Llwythwyd glo a gloddiwyd o byllau ym mhentrefi Reynalton, Loveston a Yerboston yng Nghai Cresswell.

Yng Nghairew defnyddiwyd symudiad y llanw i falu grawn yn y Felin Ffrengig, sy'n sefyll wrth ymyl llyn y felin, sy'n naw hectar (23erw). Mae yna dystiolaeth bod yma felin yng Nghairew mor gynnar â 1542, ond fwy na thebyg bod yr adeilad presennol yn dyddio o'r 19eg ganrif. Credid bod ei enw yn cyfeirio at y graig Ffrengig a ddefnyddiwyd i wneud meini'r felin.

Cymerodd y Normaniaid awenau De Sir Benfro i ddechrau ar ddiwedd yr 11eg ganrif, gan wneud Castell Penfro yn bencadlys. Ond, fe ddewisodd cwnstabl Castell Penfro, Gerald de Windsor, adeiladu ei gastell ei hun yng Nghairew.

Fwy na thebyg mai castell pren oedd y castell cyntaf. Cymerwyd ei le yn ddiweddarach gan strwythur o garreg ac ychwanegwyd ato dros y canrifoedd gyda'r datblygiad terfynol yn yr 16eg ganrif.

Yna, ailadeiladodd yr adeiladwyr Elisabethaidd ochr ogleddol y castell, gan ychwanegu'r ffenestri crand sy'n edrych allan dros llyn y felin.

